**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Partneriaeth AoHNE Gŵyr

**Down To Earth, Little Bryngwyn, Cefn Bryn, SA3 1ED**

**Nos Lun, 25 Mehefin 2018 am 7.00pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| J P Curtice | P R Hood-Williams | L James |
| A H Stevens | | |

**Aelodau o'r Grŵp Llywio**

| | | |
|---|---|---|
| Roger Button | Michael Lewis | Paul Tucker |
| Rod Cooper | Hamish Osborn | |
| Gordon Howe | Barbara Parry | |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Tracey Button | Parc Gwersylla a Charafanau Pitton Cross |
| Ian Button | Parc Gwersylla a Charafanau Pitton Cross |
| Paul Thornton | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru |
| John France | Cerddwyr Abertawe |
| Robin Kirby | Cymdeithas Gŵyr |
| Hildegarde Roberts | Cymdeithas Gŵyr |
| Audrey Frank | Cymdeithas Gŵyr |
| Stuart Mackinnon | Tread Gower/Gŵyl Gerdded Gŵyr |
| Sue Lyle | Dialogue Exchange |
| John Davies | BayTrans |
| Jo Scott | Cyngor Cymuned Rhosili |
| Alan Glass | Cyngor Cymuned Penrhys |
| Jan Ellis | Cyngor Cymuned Penrhys |
| Jemma Hayburn | Gwersyll Ieuenctid Cristnogol St Madoc |
| Tim Davies | Gwersyll Ieuenctid Cristnogol St Madoc |
| Martin Slucutt | Cyd-drigo Abertawe |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Chris Lindley | Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Mike Scott | Swyddog AoHNE Gŵyr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Stephen Heard, Keith Marsh a/ac Deborah Vine

---

**1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**2 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion cyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth AoHNE Gŵyr a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2018 fel cofnod cywir.

**3 Materion sy'n codi o'r cofnodion.**

**Arolwg Awyr Dywyll Gŵyr**

Rhoddodd Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr ddiweddariad yn y Cyfarfod Blynyddol ar adroddiad Arolwg Awyr Dywyll Gŵyr. Amlinellodd fod y cyngor ar hyn o bryd mewn trafodaethau ag Awyr Dywyll Cymru am ei fod yn bwriadu cyflwyno cais am statws Cymuned Awyr Dywyll ar ddechrau 2019. Y gobaith yw y byddai'r cais yn cyd-fynd â'r Wythnos Awyr Dywyll Ryngwladol ym mis Ebrill 2019. Roedd trafodaethau'n parhau rhwng adrannau'r cyngor a phartneriaid.

**4 Cyflwyniad - Gwaith a Rolau Partneriaeth AoHNE Gwyr a Thîm AoHNE Gwyr.**

Rhoddodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, gyflwyniad ar waith Partneriaeth AoHNE Gŵyr. Amlinellodd ddynodiad AoHNE Gŵyr, rôl Partneriaeth AoHNE Gŵyr a gwaith Tîm AoHNE yn Ninas a Sir Abertawe.

**5 Cyflwyniadau - Cyrff Partner.**

**Cymdeithas Gŵyr**

Rhoddodd Robin Kirby, Cadeirydd Cymdeithas Gŵyr gyflwyniad ar waith y gymdeithas. Tynnodd sylw at y ffaith fod gan y gymdeithas 14,000 o aelodau ar hyn o bryd, a'i fod yn pryderu ynghylch Arglwyddiaeth Gŵyr, gan gynnwys canol Dinas Abertawe, lle'r oedd yn canolbwyntio ar Farina Abertawe.

Cyfeiriodd at y gwaith cynllunio a wnaed gan y gymdeithas, y grantiau a'r gefnogaeth ariannol yr oedd y gymdeithas wedi'u rhoi yn ystod y flwyddyn flaenorol a'r cylchgrawn 'Guide to Gower' y disgwylid iddo gael ei ailargraffu. Amlygodd y rôl arwyddocaol sydd gan y gymdeithas ym mhenrhyn Gŵyr ac o ran ei amcanion.

Gofynnwyd cwestiynau am gynllunio a mynediad ac atebwyd y rhain yn briodol.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolydd Cymdeithas Gŵyr am ei gyflwyniad.

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

Rhoddodd Hamish Osborne, Arweinydd Tîm Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gyflwyniad am gefndir a gwaith CNC. Dywedodd mai CNC yw'r corff mwyaf yng Nghymru a noddir gan y Llywodraeth, a bod ganddo 1,180 o staff a chyllideb o

£180m. Rhoddodd fanylion ynghylch rôl a diben cyffredinol CNC, yn enwedig ym mhenrhyn Gŵyr, a chyfeiriodd at rai o'r safleoedd y mae'n eu rheoli yn yr ardal.

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch gwersylla anghyfreithlon, problemau baw cŵn, y morglawdd yn Llanmadog a maint/biwrocratiaeth/tangyllido CNC, a atebwyd yn briodol.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolydd CNC am ei gyflwyniad.

**Partneriaeth Tirwedd Gŵyr**

Rhoddodd Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr gyflwyniad ar gefndir a gwaith Partneriaeth Tirwedd Gŵyr.  Amlinellodd fod prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn dod i ben ac amlygodd fod ei etifeddiaeth yn bwysig.

Rhoddodd enghreifftiau o nifer o'r prosiectau a gefnogwyd gan y bartneriaeth a gwnaeth sylw ar y gwaith partneriaeth a wnaed i gyflawni'r gwaith. Ychwanegodd y cynhelir dathliad o'r rhaglen yn Sioe Gŵyr ym mis Awst ac y rhoddir adroddiad terfynol i'r Grŵp Llywio ym mis Medi 2018.

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch nodi adeiladau/gwrthrychau sy'n haeddu eu diogelu ym mhenrhyn Gŵyr ac mewn perthynas ag adfer Capel Mount Hermon, prosiect Penclawdd, ac ymatebwyd yn briodol i'r rhain.

Diolchodd y Cadeirydd i Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr am ei gyflwyniad.

**6 Cyflwyniadau - Lleisiau Gwyr.**

**Gŵyl Gerdded Gŵyr**

Rhoddodd Stuart Mackinnon, Tread Gower/Gŵyl Gerdded Gŵyr, gyflwyniad ar waith y ddau sefydliad ym mhenrhyn Gŵyr. Diolchodd i Gyngor Abertawe a Chymdeithas Gŵyr am eu cefnogaeth ariannol ac amlygodd fod 42 o deithiau cerdded wedi'i defnyddio yn ystod yr ŵyl gerdded.

Tynnodd sylw at y teithiau cerdded yn yr ardal, yn ogystal â'r teithiau cerdded arfordirol a'r rhaglen arweinyddiaeth sydd ar gael i bobl ifanc drwy Tread Gower.

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y defnydd o dir CNC, taflenni a luniwyd ar gyfer yr ŵyl gerdded a gwersylla gwyllt ar e.e. Gefn Bryn. Ymatebwyd i'r cwestiynau'n briodol.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolydd Tread Gower/Gŵyl Gerdded Gŵyr am ei gyflwyniad.

**7 Cwestiynau Gan Y Cyhoedd.**

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y canlynol: -

**Cynllun Llysgenhadon Gŵyr**

Gofynnodd Alan Glass am ddiweddariad ynghylch Cynllun Llysgenhadon Gŵyr.

Esboniodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, fod Partneriaeth Tirwedd Gŵyr bellach wedi derbyn cyllid gan y Gronfa Datblygu Sgiliau i'w gynnal eleni. Byddai Twristiaeth Bae Abertawe'n gweithredu fel corff cynnal ac yn mynd ati i hyfforddi gwirfoddolwyr. Penderfynir ar y digwyddiadau/ardaloedd y bydd y llysgenhadon yn mynd iddynt ar ôl yr hyfforddiant.

**Gwersylla Anghyfreithlon ar Gefn Bryn**

Gofynnodd Hildegarde Roberts gwestiwn ynghylch plismona gwersyllwyr anghyfreithlon ar Gefn Bryn.

Dywedodd Mike Scott, Swyddog AoHNE Gŵyr, y dylid adrodd wrth yr heddlu am wersyllwyr anghyfreithlon (101 os nad yw'n argyfwng). Ychwanegodd ei bod hi'n drosedd sifil ac mai perchennog y tir sy'n gyfrifol. Ni allai Cyngor Abertawe weithredu mewn perthynas â'r fath faterion, ond byddai'r heddlu'n cymryd camau pe baent yn ystyried yr ymddygiad yn ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Llwybrau Troed**

Gofynnodd Jo Scott a oedd unrhyw arian ychwanegol ar gael i gefnogi'r Tîm Mynediad i Gefn Gwlad oherwydd bod rhai llwybrau troed mewn cyflwr gwael a'r gyllideb a niferodd staff wedi'u lleihau'n sylweddol.

Esboniodd Chris Lindley, Arweinydd Tîm AoHNE Gŵyr fod cyllidebau wedi'u torri a bod y sefyllfa'n annhebygol o wella. Ychwanegwyd bod sefydliadau fel Cymdeithas Gŵyr/Cerddwyr Gŵyr wedi gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Abertawe, gan ddarparu cefnogaeth ariannol/wirfoddol mawr ei hangen i brosiectau.

Holodd John France hefyd pam na fu unrhyw sôn am y diwydiant amaethyddol gan fod ffermwyr yn rheoli llawer o'r mynedfeydd i lwybrau troed Eglurwyd bod cominwyr/Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr cael eu cynrychioli ar y Grŵp Partneriaeth.

**8 Dyddiadau cyfarfodydd 2017/2018 i gael eu cynnal am 7pm fel a ganlyn:**

Nodwyd y dyddiadau/lleoliadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd i'w cynnal yn ystod Blwyddyn Ddinesig 2018-2019 -

- 24 Medi 2018 - Canolfan Barham, Capel Mount Pisgah, Parkmill, Abertawe;
- 3 Rhagfyr 2018 - Lleoliad i'w gadarnhau;
- 25 Mawrth 2018 - Lleoliad i'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod I ben am 9.00 pm

**Cadeirydd**